**CYFARFOD** **PWYLLGOR PENSIYNAU**

**DYDDIAD** **19 MEHEFIN 2018**

**TEITL** **PRESENOLDEB MEWN CYNADLEDDAU**

**PWRPAS** **DEWIS CYNRYCHIOLWYR I FYNYCHU CYNADLEDDAU**

**AWDUR** **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

---

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r eitem hon gerbron er mwyn hysbysu'r aelodau am gynadleddau perthnasol a phenderfynu pwy i fynychu ar ran Cronfa Gwynedd.

**1.2** Mae'r Cyngor yn anfon cynrychiolwyr ar sail rota i nifer o gynadleddau yn ystod y flwyddyn er mwyn cynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth aelodau a swyddogion.

## 2. DIGWYDDIADAU "ARFEROL"

Mae'r 3 gynhadledd "arferol" blynyddol canlynol wedi'u trefnu ar gyfer 2018/19 -

**2.1** Seminar Buddsoddi'r LGC, sy'n cael ei gynnal yn y Celtic Manor Resort, Casnewydd ar 5-7 Medi 2018 (**Atodiad 1**),

**2.2** Cynhadledd Flynyddol y 'Local Authority Pension Fund Forum' (LAPFF), sy'n cael ei gynnal yn Bournemouth ar 5-7 Rhagfyr 2018 yn yr Hilton, Bournemouth (yn wahanol i'r lleoliad arferol o'r Bournemouth Marriott) (**Atodiad 2**) **- noder bod y Cyngor Llawn yn cyfarfod ar 6 Rhagfyr 2018**, a

**2.3** Cynhadledd Llywodraethu'r CPLlL, Cynhadledd "Ymddiriedolwyr" gynt, sy'n cael ei gynnal yn y Double Tree by Hilton Hotel, yng nghanol ddinas Bryste, ar 17-18 Ionawr 2019 (**Atodiad 3**, eitem 9-12).

## 3. PRESENOLDEB

**3.1** Fel arfer, mae'r Pennaeth Cyllid neu'r Rheolwr Buddsoddi yn mynychu Seminar Buddsoddi'r LGC, gyda dau aelod o'r Pwyllgor Pensiynau ar sail rota.

**3.2** Eto, fel arfer, y Pennaeth Cyllid neu'r Rheolwr Buddsoddi sy'n mynychu Cynhadledd Flynyddol yr 'LAPFF', gydag un aelod o'r Pwyllgor Pensiynau (fel arfer y Cadeirydd) ac un aelod o'r Bwrdd Pensiwn.

**3.3** Yn ddiweddar, mae 2 aelod o'r Pwyllgor Pensiynau a 2 aelod o'r Bwrdd Pensiwn, ynghyd â swyddog, wedi mynychu Cynhadledd Llywodraethu'r CPLlL.

## 4. DIGWYDDIAD YCHWANEGOL

**4.1** Bydd Russell Investments, sy'n darparu gwasanaethau ymgynghorol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru, yn cynnal eu 'Summit' blynyddol yn County Hall, Llundain, ar 14 Tachwedd 2018 (**Atodiad 4**). Bydd Russell Investments yn rhannu eu persbectif ar lwyddo ymhlith heriau ymddygiadol, economaidd a geo-wleidyddol sy'n wastad bresennol ac sy'n effeithio ar y portffolios y maent yn ymddiried ar y cyd.

**4.2** Mae cyfarfod Panel Buddsoddi Gwynedd wedi'i drefnu yn Llundain ar y diwrnod canlynol, a gellid archebu llefydd i 2 aelod ac 1 swyddog.

## 5. GWERTH Y DIGWYDDIADAU

**5.1** Gan fod aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn "ymddiriedolwyr" ar gyfer buddsoddiadau gwerth £2bn, mae'n hanfodol fod aelodau yn adeiladu ar ei hyfforddiant sylfaenol ac yn sicrhau gwybodaeth gyfredol o'r cyd-destun buddsoddi / CPLlL trwy fynychu digwyddiadau addas fel rhain.

## 6. ARGYMHELLIAD

**6.1** Gofynnir i'r Pwyllgor dewis cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Pensiynau i fynychu'r 4 digwyddiad uchod.